## Yr Holocost a Chymru

# Ffoaduriaid Iddewig yn Lluoedd Arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd

### Nodiadau i Athrawon

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar hanesion ffoaduriaid Iddewig a ymunodd â lluoedd arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu llawer o filwyr Iddewig a fu gynt yn ffoaduriaid yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog yng Nghymru. Roedd rhai wedi'u cyfyngu i unedau atodol, tra bod eraill wedi'u hyfforddi fel comandos ac yn cymryd rhan mewn brwydrau, gan gynnwys yn ystod glaniadau D-Day.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am ffoaduriaid Iddewig yn Lluoedd Arfog Prydain a ble i ddarganfod mwy
- Bywgraffiadau byr o Herman Rothman, Herbert Patrick Anderson a Colin Anson
- Dolenni i glipiau sain o recordiadau hanes llafar o Herman Rothman, Herbert Patrick Anderson a Colin Anson
- Ffotograff o X Troop yn Aberdyfi, 1943
- Trawsgrifiadau o'r clipiau sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), 'Diffinio'r Holocost', cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost.

### Nodau dysgu:

- Cael gwybodaeth am rôl ffoaduriaid Iddewig yn lluoedd arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys eu gwasanaeth yng Nghymru, a deall pam y gwnaethant ymuno
- Annog trafodaeth ar ddigwyddiadau hanesyddol a'u heffeithiau hirdymor ar ddaearyddiaethau gwleidyddol cyfoes
- Datblygu meddwl beirniadol ac ymdeimlad o empathi gyda'r rhai sydd wedi profi dioddefaint yn y gorffennol
- Archwilio pwysigrwydd y stori hon i Gymru a'r byd ehangach a'i chysylltiadau â materion cyfoes, gan gynnwys ffoaduriaid, gwrth-semitiaeth, rhagfarnllyd a hiliaeth

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

### Y Pedwar Diben

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:

- datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau
- gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdanyn nhw
- ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

Gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:

- cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch
- meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol

Unigolion iach, hyderus sydd:

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau

### Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Prif Faes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau
Cam cynnydd: 3 & 4

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol

Meysydd Dysgu a Phrofiad Eraill:

Iechyd a Lles
- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd

**Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol**

Llythrennedd
- Datblygu llafaredd trwy drafodaeth, chwarae rôl, cwestiynu a chyflwyniadau, ac addasu sgiliau llafaredd ar gyfer cynulleidfa a diben tra'n gwrando ar, a dadlau, gwahanol safbwyntiau
- Datblygu pob arddull ysgrifennu, e.e. disgrifio, esbonio, trafod, gwerthuso ac ysgrifennu creadigol, ynghyd â defnyddio terminoleg a geirfa sy'n benodol i'r ddisgyblaeth
- Sicrhau mynediad ac archwilio ystod o destunau o amrywiol leoedd a chyfnodau er mwyn dadansoddi tystiolaeth, meddwl yn feirniadol, dod i gasgliad, a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau

Creadigrwydd ac arloesedd
- Annog bod yn agored i wahanol syniadau a ffyrdd o feddwl, gan alluogi mynegi barn resymedig ynghylch y gwahaniaethau hyn

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol a deall y gorffennol a'r presennol yn ogystal â dychmygu dyfodol posib
- Casglu, myfyrio a gwerthuso'n feirniadol y defnydd o ffynonellau a thystiolaeth

Effeithiolrwydd personol
- Gwerthuso, cyfiawnhau a mynegi ymatebion ystyriol mewn amrywiol ffyrdd

**Themâu trawsgwricwlaidd**

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh):

- Mae'r deunydd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, athroniaethau, a safbwyntiau crefyddol yn ymwneud â pherthnasoedd
- Mae'n cefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â materion ACRh lleol, cenedlaethol a byd-eang yn y gorffennol a'r presennol, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus

Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth (e.e., gwahaniaethu, hiliaeth, gwrth-semitiaeth, ffoaduriaid)

- Mae'r dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd democrataidd a hawliau dynol ac yn myfyrio ar eu cyfrifoldebau dinesig

**Cynefin – cefnogi dysgu mewn cyd-destunau lleol**

Mae'r Holocost yn bwnc mawr sy'n gallu ymddangos yn ddieithr i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r adnoddau hyn yn galluogi dysgwyr i glywed straeon pobl a gafodd eu heffeithio'n uniongyrchol gan yr Holocost, ac a oedd yn byw yng Nghymru. Dyma straeon pobl a gyfrannodd at eu cymunedau Cymreig lleol, ac a oedd yn rhan ohonyn nhw. Fe wnaethant ymgartrefu yma a magu teuluoedd yma, ac mae eu hanes yn rhan o stori Cymru.

Mae dysgu am yr Holocost trwy enghreifftiau lleol yn galluogi dysgwyr i ddarganfod eu hetifeddiaeth a datblygu ymdeimlad o le a chynefin. Mae hefyd yn cael gwared ar y syniad o 'arwahanrwydd' - bod hyn wedi digwydd i bobl eraill mewn lle ac amser arall - ac yn hytrach yn creu teimladau o gysylltiad ac empathi. Gall yr enghreifftiau lleol hyn helpu dysgwyr i ddeall y cysylltiad rhwng hanes Cymru a digwyddiadau byd-eang fel yr Ail Ryfel Byd a'r Holocost.

Y rhestr lawn o 20 adnodd am Yr Holocost a Chymru yw:

- Kindertransport 1: Bywyd Iddewig yng Nghanolbarth Ewrop cyn yr Ail Ryfel Byd
- Kindertransport 2: Y daith i Brydain
- Kindertransport 3: Cyrraedd Cymru
- Kindertransport 4: Bywyd yng Nghymru
- Kristallnacht 1: Atgofion o Kristallnacht
- Kristallnacht 2: Y bar mitzvah olaf
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru 1: Josef Herman
- Arlunwyr Iddewig yng Nghymru 2: Heinz Koppel
- Aero Zipp Fasteners yn Ystad Fasnachu Trefforest
- General Paper and Box Manufacturing Company yn Ystad Fasnachu Trefforest
- Caethiwo 'estron-elynion' 1
- Caethiwo 'estron-elynion' 2
- Ffoaduriaid Iddewig fel gweision domestig
- Meddygon, deintyddion a nyrsys yng Nghymru oedd yn ffoaduriaid Iddewig
- Ffoaduriaid Iddewig ym Myddin Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd

- Bywyd crefyddol ffoaduriaid Iddewig yng Nghymru
- Yr Iaith Gymraeg
- Rhyddid
- Hunaniaeth
- Cofio'r Holocost

**Syniadau ar gyfer gweithgareddau**

**Gweithgaredd 1**

Gellid defnyddio'r adnodd i dynnu sylw at natur amlgenhedlig lluoedd arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r cenhedloedd y maen nhw'n credu fu'n rhan o luoedd arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

**Rhai atebion nodedig:**
Prydeinig (Seisnig, Albanaidd, Cymreig, Gogledd Iwerddon); Indiaidd; Pwylaidd; Awstraliaidd; Seland Newydd; Canada; De Affrica; Indiaid y Gorllewin (Trinidad; Bermuda, Jamaica, Barbadia; Guyana); Americanaidd; Ffrengig; Belgaidd; Tsiecoslofac; Norwyad; Iseldiraidd; Gwyddelig. Roedd hefyd yn cynnwys rhai o Kenya; Ghana; Nigeria; Gambia; Sierra Leone; Nepal (Gurkhas).

A soniodd unrhyw un am rhai o dras Almaenig, Awstriaidd neu Eidalaidd?

**Rhai cwestiynau defnyddiol:**

- Pam y cafodd cynifer o genhedloedd eu cynrychioli yn lluoedd arfog Prydain yn ystod y rhyfel?
- Pa gymhellion y gallai'r milwyr hyn fod wedi'u cael dros ymuno?
- Pa mor bwysig oedd yr ymerodraeth i Brydain yn ystod y cyfnod hwn? Pam?

**Gweithgaredd 2**

Gellid defnyddio'r adnodd i archwilio'r cymhellion i ffoaduriaid ymuno â lluoedd arfog Prydain. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr **wybodaeth gefndir** am ffoaduriaid Iddewig yn lluoedd arfog Prydain a **bywgraffiad byr** Herman Rothman, a gwrando ar Glip Sain: Cymhelliant Herman Rothman dros ymuno â'r lluoedd arfog.

Pam roedd Herman eisiau ymuno â'r lluoedd arfog? Ydych chi'n meddwl bod ei resymau'n ddilys?

**Cwestiynau defnyddiol eraill:**

- Mae'r Ail Ryfel Byd wedi'i ddisgrifio fel rhyfel 'cyfiawn'. Beth hyn yn ei olygu yn eich barn chi?
- Ydych chi'n meddwl bod yr Almaenwyr ac Iddewon Awstria wedi'u cyfiawnhau i ymladd dros y Cynghreiriaid?
- O dan ba amgylchiadau fyddech chi'n teimlo bod cyfiawnhad dros ymladd?

**Gweithgaredd 3**

Gellid defnyddio'r adnodd i archwilio effaith gwasanaethu yn y lluoedd arfog ymhlith ffoaduriaid a phoblogaeth ehangach Cymru. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr **wybodaeth gefndir** am ffoaduriaid Iddewig yn lluoedd arfog Prydain a **bywgraffiad byr**

Herbert Patrick Anderson, a gwrando ar [Glip Sain: Amser Herbert Patrick Anderson gyda'r Pioneer Corps yn Sir Gaerfyrddin].

A fyddai gwasanaethu yn y Pioneer Corps wedi bod yn waith siomedig i ffoaduriaid? Pam? Sut gallai'r boblogaeth leol fod wedi ymateb i bresenoldeb Almaenwyr ac Awstriaid yn lluoedd arfog Prydain??

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod nhw'n ohebydd newyddion lleol sy'n ysgrifennu stori am ffoaduriaid Iddewig sy'n gwasanaethu gyda Chorfflu'r Arloeswyr gerllaw. Ysgrifennwch erthygl fer (llai na 800 o eiriau) yn amlinellu eu gweithgareddau, eu cymhellion, a'u rhyngweithio â'r boblogaeth leol. Dylai gynnwys teitl ac is-bennawd yn ogystal â thestun, a gallai gynnwys cyfweliadau byr â ffoaduriaid neu drigolion y dref.

DS. Gallai hyn fod yn gyfle i drafod sensoriaeth papurau newydd yn ystod y rhyfel. Gweld mwy: https://history.blog.gov.uk/2014/09/12/chaos-and-censorship/

## Gweithgaredd 4

Gellid defnyddio'r adnodd i ddangos natur gyfnewidiol cyfandir Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac ar ôl hynny. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr **wybodaeth gefndir** am ffoaduriaid Iddewig yn lluoedd arfog Prydain ac edrych ar y **Map o Ewrop ar ddechrau 1942**. Ydyn nhw'n adnabod y gwledydd/tiriogaethau a ddangosir ar y map? Ydyn nhw'n gallu eu henwi? Ydy'r gwledydd yn dal i fodoli heddiw? Pam/pam ddim?

Gofynnwch iddynt baru pob un o'r labeli hyn â'r lliw priodol a ddangosir ar y map:

- Yr Almaen Natsïaidd/Reich yr Almaen (glas tywyll)[1]
- Ardaloedd dan feddiannaeth yr Almaen (llwyd tywyll)[2]
- Cynghreiriaid yr Almaen (glas golau)[3]
- Undeb Sofietaidd (coch)
- Prydain (pinc)
- Ardaloedd a ddelir ym Mhrydain (oren)[4]
- Gwledydd niwtral (gwyrdd)[5]

---

[1] Mae Reich yr Almaen yn cynnwys Protectoriaeth Bohemia a Morafia a'r Llywodraeth Gyffredinol (Gwlad Pwyl).
[2] Chwalwyd Iwgoslafia gan yr Almaenwyr a'i rhannu rhwng gwladwriaethau dibynnol a pharth a feddiannwyd yng nghanol Serbia. Ar ôl i'r Almaenwyr ymosod ar yr Undeb Sofietaidd ym mis Mehefin 1941, rhannwyd y diriogaeth Sofietaidd hefyd yn *Reichskommissariate* (endidau gweinyddol lled-drefedigaethol).
[3] Arhosodd trefedigaethau Ffrainc yng Ngogledd Affrica dan reolaeth Llywodraeth Vichy Ffrainc tan ar ôl Tachwedd 1942.
[4] Meddiannwyd Ynysoedd Ffaro gan Brydain ym mis Ebrill 1940. Roedd Cyprus a Malta ill dwy yn cael eu rheoli gan Brydain yn ystod y cyfnod hwn. Parhaodd Gwlad yr Iâ yn niwtral ond meddiannwyd hi gan Brydain ym mis Mai 1940 a daeth, mewn gwirionedd, yn gynghreiriad.
[5] Arhosodd Iwerddon, Twrci, Sbaen, Portiwgal, Andorra, y Swistir, Sweden, Liechtenstein a Dinas y Fatican i gyd yn niwtral yn ystod y rhyfel.

A oes unrhyw labeli sy'n peri syndod i'r dysgwyr?

Ydyn nhw'n gallu nodi'r holl wledydd lle bu aelodau o X Troop yn gwasanaethu yn ystod y rhyfel?

**Gweithgaredd 5**

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr **wybodaeth gefndir** am ffoaduriaid Iddewig yn lluoedd arfog Prydain a **bywgraffiad byr** Colin Anson, edrych ar y **ffotgraff** o X Troop yn Aberdyfi, a gwrando ar Glip Sain: Colin Anson ar newid ei enw i ymuno â X Troop.

Sut byddech chi'n teimlo pe byddech chi'n ffoadur yn cael cais i ymuno ag uned elitaidd yn y lluoedd arfog? A fyddai newid eich enw yn broblem i chi? Pam? Pe bai'n rhaid i chi newid eich enw, pa enw fyddech chi'n ei ddewis?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn ffoadur sydd wedi'i ddewis i wasanaethu fel aelod o X Troop. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu dyddiadur yn nodi sut maen nhw'n teimlo a beth maen nhw wedi'i wneud. Dylai ddechrau, yn fras, o'r cyfnod pan ymunon nhw â'r lluoedd arfog a pharhau hyd at y cyfnod hyfforddi yn Aberdyfi. Gallant ei ysgrifennu fel un cofnod hir neu fel sawl cofnod llai. Anogwch y dysgwyr i fod yn greadigol, a'u hatgoffa o natur gyfrinachol a phwysig yr uned.